# CYFARFOD ARBENNIG O GYNGOR SIR YNYS MÔN

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Mehefin 2011

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd G. O. Jones – Cadeirydd<br>Y Cynghorydd R. Ll. Jones - Is-Gadeirydd<br><br>Y Cynghorwyr W. J. Chorlton, E. G. Davies, Lewis Davies, R. Anthony Dew, B. Durkin, K. Evans, D. R. Hughes, Ff. M. Hughes, R. Ll. Hughes, T. Ll. Hughes, W. I. Hughes, W. T. Hughes, K. P. Hughes, Aled M Jones, Eric Jones, H. Eifion Jones, O. Glyn Jones, Raymond Jones, R. Dylan Jones, Rhian Medi, Bryan Owen, J. V. Owen, Bob Parry OBE, G. O. Parry MBE, Eric Roberts, G. W. Roberts OBE, P. S. Rogers, E. Schofield, Ieuan Williams, J. P. Williams. |
| **WRTH LAW**: | Prif Weithredwr Dros Dro<br>Cyfarwyddwr Corfforaethol (Cyllid)<br>Cyfarwyddwr Corfforaethol (Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol)<br>Pennaeth Gwasanaeth (Priffyrdd a Rheoli Gwastraff) (Eitem 4 yn unig)<br>Pennaeth Gwasanaeth (Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd) (Eitem 4 yn unig)<br>Pennaeth Gwasanaeth (Polisi)<br>Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol<br>Cyfreithiwr i'r Swyddog Monitro<br>Prif Swyddog Cynllunio (Eitem 4 yn unig)<br>Rheolwr, Cefnogaeth Ganolog a Chynllunio Argyfwng<br>Rheolwr Gwasanaethau Pwyllgor<br>Swyddog Cyfathrebu.<br><br>Y Mri. Alex Aldridge, Byron Davies. |
| **YMDDIHEURIADAU**: | Y Cynghorwyr C. Ll. Everett, Jim Evans, Tom Jones, R. Ll. Jones, C. McGregor, J. Arwel Roberts |

---

Agorwyd y cyfarfod gyda gweddi gan y Cynghorydd K. P. Hughes.

### 1. DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Gwnaeth y Cynghorwyr B. Durkin, P. S. Rogers ac E. Schofield ill tri datganiad o ddiddordeb yn Eitem 3 y cofnodion hyn ac nid oeddynt yn bresennol yn y cyfarfod yn ystod unrhyw bleidlais neu drafodaeth arni.

Gwnaeth y Cynghorydd Selwyn Williams ddatganiad o ddiddordeb yn Eitem 4 y cofnodion hyn ac nid oedd yn bresennol yn y cyfarfod yn ystod unrhyw drafodaeth neu bleidlais arni.

**2. DERBYN UNRHYW GYHOEDDIADAU GAN Y CADEIRYDD, ARWEINYDD Y CYNGOR, Y BWRDD COMISIYNWYR NEU BENNAETH Y GWASANAETHAU TÂL**

Llongyfarchodd y Cadeirydd y bobl ifanc o'r Ynys a fu'n llwyddiannus yn Eisteddfod yr Urdd yn ddiweddar yn Abertawe. Yn ogystal, dymunodd yn dda i'r cystadleuwyr hynny a fydd yn cynrychioli Ynys Môn yn y Gemau Ynysoedd ar Ynys Wyth ddiwedd y mis hwn.

Ar ran y Cyngor, cydymdeimlodd y Cadeirydd yn ddwys â'r Cynghorydd C. Ll. Everett a'i deulu a oedd wedi colli ei dad-yng-nghyfraith ddoe a hefyd gyda Mrs Carys Bullock, Adran y Rheolwr-gyfarwyddwr a'i theulu ar farwolaeth ei thad ddydd Mawrth.

Cydymdeimlodd hefyd gydag unrhyw aelod neu aelod o staff a oedd wedi cael profedigaeth.

Safodd yr Aelodau a'r swyddogion mewn tawelwch fel arwydd o'u parch.

Achubodd rhai o'r Aelodau ar y cyfle i ddwyn sylw'r Cyngor at y ffaith eu bod yn siomedig nad oeddynt yn derbyn fersiynau Cymraeg o adroddiadau Pwyllgor mewn rhai cyfarfodydd o'r Cyngor a hynny yn groes i'r polisi dwyieithrwydd a fabwysiadwyd gan y Cyngor hwn.

Dywedodd y Prif Weithredwr Dros Dro y byddai'n ymchwilio i'r mater.

**3. INDEMNIADAU AR GYFER AELODAU A SWYDDOGION**

(a) Dywedwyd - Bod y Cyngor Sir, yn ei gyfarfod ar 12 Mai 2011, wedi penderfynu *"i gytuno mewn egwyddor ar hyn o bryd bod y Cyngor yn dymuno mabwysiadu'r pŵer i roi indemniadau fel y darperir ar gyfer hynny gan y Gorchymyn a bod adroddiad pellach ar y mater yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor yn y man."*

(b) Dywedodd Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol – Bod angen mabwysiadu polisi a gweithdrefn ar gyfer gwneud a phenderfynu ar geisiadau am indemniadau dan y Gorchymyn. Roedd yr adroddiad hwn yn amlinellu polisi arfaethedig, gweithdrefn a ffurf geiriad cyffredinol ar gyfer indemniad ac roedd y cyfan i'w gweld yn yr Atodiad i'r adroddiad hwn.

Fel a nodwyd yn yr adroddiad blaenorol i'r Cyngor ar 12 Mai 2011, fe gynhaliwyd asesiad o'r effaith o ran cydraddoldebau ar y polisi a daethpwyd i'r canlyniad ei fod, yn gyffredinol, yn cael effaith gadarnhaol.

Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol bod yr adroddiad yn cyfeirio at sefydlu Is-Bwyllgor ac arno o leiaf 3 aelod o'r Cyngor i benderfynu ar geisiadau am indemniadau. Fodd bynnag, wedi edrych ymhellach ar y ffigyrau, roedd dewisiadau pellach ar gael i'r aelodau yn y cyswllt hwn, sef Is-Bwyllgor ac arno 4 aelod yn cynnwys cynrychiolydd o bob un o'r grwpiau gwleidyddol neu Is-Bwyllgor o 5 aelod i gynnwys yn ychwanegol, un aelod rhydd.

Cynigiwyd ac eiliwyd y dylid derbyn yr argymhellion yn yr adroddiad ac y dylai'r Is-Bwyllgor gynnwys 5 aelod a bod Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor yn cael eu heithrio fel aelodau'r Is-Bwyllgor.

Cynigiwyd ac eiliwyd gwelliant y dylai'r Is-Bwyllgor gynnwys 10 o aelodau a bod arno gydbwysedd gwleidyddol.

Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol y gallai Is-Bwyllgor ac arno 10 aelod gael effaith ar gydbwysedd gwleidyddol cyffredinol y Pwyllgorau ar draws y Cyngor ac y byddai'n fwy beichus o safbwynt gweinyddol.

Dywedodd aelod y gwnaed cwyn yn erbyn aelod o Gyngor Sir y Fflint ac nad oedd gan yr aelod dan sylw y modd i ymladd yr achos oherwydd y byddai'n costio oddeutu £250k. Derbyniodd yr aelod y taliad ond heb yr arian hwnnw, ni fyddai wedi gallu ennill yr achos. Fodd bynnag, roedd y Cynghorydd yn derbyn yr egwyddor a gyflwynwyd ac yn cefnogi'r argymhellion yn yr adroddiad.

Rhoddwyd i Mr. Alex Aldridge, Comisiynydd, y cyfle i annerch y Cyngor. Mewn perthynas â'r sylwadau a wnaed, roedd yn dymuno egluro nad oedd Cyngor Sir y Fflint wedi talu'r swm y sonnir amdano i unigolyn. Roedd yr indemniad fel yr oedd yn sefyll yn ymwneud ag achos a aeth gerbron yr Ombwdsmon. Ar hyn o bryd roedd yr unigolyn yn Sir y Fflint yn disgwyl am ddyfarniad gan yr Ombwdsmon. Cafodd yr unigolyn hwnnw ei indemnio gan y Cyngor ar gyngor y Swyddog Monitro i ddod a chyfreithiwr i'w gynrychioli trwy'r broses ar y ddealltwriaeth glir y byddai rhaid iddynt ad-dalu'n llawn y costau i'r Cyngor petai'r achos yn colli. Roedd cyfyngiad llym hefyd ar y swm i'w wario. Roedd yr achos yn parhau. Yn Sir y Fflint, y Cyngor llawn wnaeth y penderfyniad yn seiliedig ar y cyngor a gafwyd gan y Swyddog Monitro.

Yn dilyn y datganiad uchod, tynnodd y cynigydd a'r eilydd eu gwelliant gwreiddiol o Is-Bwyllgor ac arno 10 aelodau a chynigiwyd ac eiliwyd gwelliant y dylai'r Cyngor hwn ddilyn esiampl Cyngor Sir y Fflint yn hyn o beth.

Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol yr ymddangosai o gyfraniadau gan rai aelodau nad oedd yr adroddiad wedi cael ei ddarllen na'i ddeall gan rai aelodau. Yn yr amgylchiadau hynny, rhaid cynghori'r aelodau hynny i ymatal rhag pleidleisio ar y mater.

Collwyd y gwelliant gan 20 bleidlais i 7 a phenderfynwyd derbyn yr argymhellion yn yr adroddiad yn amodol ar sefydlu Is-Bwyllgor o 5 aelod fel y cyfeirir at hynny uchod.

Roedd y Cynghorydd Raymond Jones yn dymuno iddo gael ei gofnodi ei fod wedi ymatal ei bleidlais ar y mater hwn.

**PENDERFYNWYD**

- **Os yw polisi yswiriant cyfredol y Cyngor o bosib, yn cynnig diogelwch ar gyfer y mater y gellir ei indemnio o dan delerau'r Gorchymyn, yna bydd indemniad ar gyfer y mater hwnnw yn cael ei gynnig trwy yswiriant yn unig ac ar delerau ac amodau, cyfyngiadau a gostyngiadau polisi y gall yswirwyr y Cyngor fod eu hangen.**

- **Lle nad yw polisi yswiriant presennol y Cyngor yn diogelu mater y gellir ei indemnio o dan delerau'r Gorchymyn, yna bydd indemniad ar gyfer y mater hwnnw, o bosib, yn cael ei gynnig trwy wneud taliad ariannol ond yn amodol ar delerau ac amodau y penderfynir arnynt yn unol â'r polisi fel a nodir yn yr Atodiad i'r adroddiad hwn;**

- **Sefydlu Is-Bwyllgor i benderfynu ar geisiadau am indemniadau yn unol ag ail baragraff y penderfyniad y cyfeirir ato uchod. Bydd ar yr Is-Bwyllgor 5 aelod a bydd iddo gydbwysedd gwleidyddol (yn ôl y cydbwysedd gwleidyddol cyfredol, byddai hynny'n golygu un aelod o bob grŵp gwleidyddol ynghyd ag un aelod rhydd), a bydd yn penodi Cadeirydd o blith eu haelodau. Ni fydd Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor yn aelodau o'r Is-Bwyllgor. Fe ddirprwyir i'r Is-Bwyllgor bob hawl i wneud penderfyniadau yng nghyswllt ceisiadau ac fe roddir iddo'r pŵer i ddyrannu arian yn unol ag unrhyw benderfyniadau a wneir ar geisiadau. Bydd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Cyllid yn cynghori'r Is-Bwyllgor yn ystod eu trafodaethau fel y bydd angen.**

- **Mabwysiadu'r ffurf arfaethedig o eiriad ar gyfer indemniad, y polisi a'r weithdrefn ar gyfer delio gyda cheisiadau am indemniadau fel a nodir yn yr adroddiad i'r atodiad hwn.**

**4. ADRODDIAD GAN OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU**

(a) Ystyriwyd - Adroddiad budd cyhoeddus a gyhoeddwyd ar 25 Mawrth 2011 gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn dilyn ymchwiliad i gŵyn o gamweinyddu yn erbyn y Cyngor (Cyfeirnod Achos yr Ombwdsmon 200901501).

(b) Dywedodd y Prif Weithredwr Dros Dro - Y cyhoeddodd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru adroddiad ar 25 Mawrth 2011 yn unol ag Adran 16 Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005 mewn perthynas ag ymchwiliad i gŵyn a wnaed yn erbyn y Cyngor.

Yn yr adroddiad, canfu'r Ombwdsmon achos o gamweinyddu yn erbyn y Cyngor a gwnaeth argymhellion i'r Cyngor. Gwnaed yr Adroddiad yn un cyhoeddus ac roedd rhaid i'r Cyngor ystyried yr adroddiad, ei gasgliadau a'i argymhellion o fewn 3 mis o ddyddiad yr adroddiad. Cyflwynwyd yr adroddiad i'r cyfarfod hwn fel y gall y Cyngor llawn ystyried gofynion yr adroddiad ac ymateb yn unol â hynny i'r Ombwdsmon.

Daeth yr Ombwdsmon i'r casgliad bod y Cyngor yn euog o gamweinyddu fel a ganlyn:

1. Methiant i asesu'n ddigonol effaith datblygiad ar Safle B a oedd yn andwyol i ddiogelwch ar y briffordd.

2. Methiant i fynd ati'n egniol i roddi sylw i'r broblem a grëwyd yn sgil y camweinyddu uchod a waethygwyd gan fethiant i ymateb yn ddigonol i ohebiaeth gan asiant Mr. W.

Roedd swyddogion yn derbyn casgliadau'r Ombwdsmon o gamweinyddu ac yn argymell y dylai'r Cyngor dderbyn y casgliadau hynny hefyd. Roedd swyddogion hefyd yn derbyn argymhellion yr Ombwdsmon ynghylch iawndal ac yn argymell y dylai'r Cyngor wneud yr un modd. Achubodd y Prif Weithredwr dros dro ar y cyfle i ymddiheuro i'r Cyngor am y camweinyddu a ddigwyddodd.

**PENDERFYNWYD**

- **Derbyn a chytuno gydag adroddiad yr Ombwdsmon, ei ganfyddiadau a'i argymhellion.**

- **Mabwysiadu'r argymhellion a nodir ym mharagraff 101 yr adroddiad (tudalennau 40 a 41) a rhoddi'r awdurdod i'r swyddogion weithredu'r argymhellion hynny o fewn yr amserlenni a bennwyd gan yr Ombwdsmon.**

- **O ran yr argymhelliad sydd ym mharagraff 102 yr adroddiad, bod y Pennaeth Gwasanaeth (Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd) a'r Pennaeth Gwasanaeth (Priffyrdd a Rheoli Gwastraff) yn adolygu'r arferion rheoli datblygu perthnasol yn eu Hadrannau perthnasol a'u trefniadau adrannol ar gyfer ymateb i gwynion ac ar gyfer ystyried a gweithredu'n brydlon ar gamau a gynigir i unioni cwynion cyfredol fel y gellir lliniaru problemau a nodwyd. Eu bod yn adrodd ar eu casgliadau i'r Comisiynwyr sy'n gyfrifol am eu gwasanaethau perthnasol a'u bod yn adrodd ar eu casgliadau i'r Bwrdd Comisiynwyr.**

- **Rhoddi'r awdurdod i'r Prif Weithredwr Dros Dro ymddiheuro i Mr. W am y camweinyddu.**

**5. ADOLYGIAD O DREFNIADAU ETHOLIADOL YNYS MÔN**

(a) Dywedwyd – Y cyflwynwyd y Rhybudd o Gynigiad isod gan y Cynghorwyr K. P. Hughes, Aled Morris Jones, Bryan Owen, G. O. Parry MBE ac Eric Roberts i'r Cyngor Sir ar 12 Mai 2011:

"*Rydym ni sydd wedi arwyddo isod yn gofyn i'r Rheolwr-gyfarwyddwr Dros Dro alw cyfarfod arbennig o Gyngor Sir Ynys Môn i drafod cyfarwyddyd y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol ddyddiedig 28 Mawrth, 2011 i adolygu ymhellach drefniadau etholiadol Ynys Môn.*

*Bwriedir i'r adroddiad terfynol gael ei gyflwyno i'r Gweinidog erbyn 30 Medi, 2011.*

*Ni fydd yr amserlen hon yn caniatáu cyfnod cychwynnol o ymgynghori gyda chymunedau Ynys Môn ar ddechrau'r adolygiad."*

(b) Dywedwyd bod y Cyngor Sir, yn dilyn ystyried yr uchod, wedi penderfynu *"gohirio ystyried y mater a bod trefniadau'n cael eu gwneud i alw cyfarfod arbennig o'r Cyngor Sir i drafod y mater mewn manylder o fewn y pythefnos/tair wythnos nesaf."*

(c) Dywedwyd gan y Prif Weithredwr Dros Dro - Mai un o argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol i Weinidogion Cymru yn dilyn yr Ailarchwiliad Llywodraethu Corfforaethol o'r Cyngor Sir ym mis Chwefror 2011 oedd "*to request the Local Government Boundary Commission for Wales to review its proposals published in 2010 to ensure that the changes proposed adequately address the need for democratic renewal in anglesey in terms of the number of councillors and the introduction of multi-member wards."*

Ar 28 Mawrth 2011, rhoddodd y Gweinidog ar gyfer Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol gyfarwyddyd i Gomisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol Cymru gynnal adolygiad pellach o'r Sir a'i threfniadau etholiadol a gwneud cynigion diwygiedig ynghylch dymunoldeb rhanbarthau aml aelod ledled y Sir a nodwyd y dylid ceisio cynnig cymhareb Cynghorwyr - etholwyr cyn sydd cyn agosed â phosib i 1:1750.

Gallai'r cyfarwyddyd cyfredol olygu 29 o aelodau etholedig ar gyfer y Sir, gan gynnwys mae'n debyg wardiau amlaelod. Mae wardiau amlaelod eisoes yn bodoli mewn 19 o'r Siroedd yng Nghymru ar hyn o bryd ac maent yn amrywio o ran nifer rhwng 2 a 4 aelod fesul rhanbarth.

Roedd y Comisiwn Ffiniau wedi cadarnhau y byddai'n cyhoeddi copi o'r cynigion cychwynnol erbyn diwedd mis Mehefin neu ddechrau mis Gorffennaf 2011 gan roddi, cyfnod o 8 wythnos ar gyfer cyflwyno sylwadau i'r Comisiwn. Byddai hyn yn golygu y byddai modd iddynt ystyried sylwadau'r etholwyr cyn llunio eu hargymhellion terfynol i'r Gweinidog erbyn 30 Medi 2011. Ar ôl y dyddiad olaf hwn, byddai cyfnod o ymgynghori pellach o 6 wythnos ynghylch cynigion terfynol y Comisiwn a chyflwynir unrhyw sylwadau'n uniongyrchol i'r Gweinidog i'w hystyried cyn y bydd ef yn penderfynu ar y Gorchymyn. Gall y Gorchymyn gymeradwyo argymhellion y Comisiwn neu gynnwys newidiadau ar ôl yr ymgynghori, yn ôl disgresiwn y Gweinidog.

Yn ychwanegol at hyn, gwnaed cais i aelod o'r Comisiwn fynychu'r Cyngor yn ystod Gorffennaf 2011 i gyflwyno eu cynigion cychwynnol.

Oherwydd y byddai'r cynigion diwygiedig , os bydd rhai, yn dod i rym mae'n debyg o ddyddiad yr etholiad nesaf a drefnwyd ar gyfer Mai 2012 ac oherwydd y byddant yn fecanwaith ar gyfer ar gyfer llywodraethu sirol hwylus i ddinasyddion Ynys Môn am y 10 i 15 mlynedd nesaf, efallai y bydd yr Aelodau yn dymuno hyrwyddo cynigion cychwynnol y Comisiwn trwy drafod gyda'r cymunedau, trwy hwyluso 'sioeau teithiol' a chyhoeddusrwydd neu drefniadau tebyg o bosib ledled y sir fel bod modd i'r etholwyr fynegi barn am y trefniadau. Yn ogystal, gofynnwyd i'r Aelodau ystyried sut bydd y Cyngor yn trafod ac yn cyflwyno sylwadau ar y cynigion cychwynnol ym mis Groffennaf a'r cynnig terfynol wedyn yn Hydref 2011 o fewn y cyfnod ymgynghori a ddarparwyd.

Dywedodd y Prif Weithredwr Dros Dro bod y Gweinidog wedi ymweld â'r swyddfeydd hyn yn ddiweddar ac y cafwyd trafodaethau ar yr adolygiad etholiadol gydag arweinyddion y grwpiau'n unigol. Hefyd, roedd y Gweinidog wedi derbyn deisebau gan Gynghorau Tref a Chymuned yn ystod y cyfnod hwn. Yn dilyn yr ymweliad, addawodd y Gweinidog ysgrifennu llythyr at y Cyngor hwn gyda'r nod o glirio unrhyw gamddealltwriaeth ynglŷn â'i fwriadau. Derbyniwyd y llythyr hwnnw ddoe ac mae copi wedi cael ei anfon at arweinyddion y grwpiau gwleidyddol.

Yn ei lythyr, soniodd y Gweinidog am y canlynol:-

- Ei fod wedi ymateb i'r argymhellion cryf a gyflwynwyd gan yr Archwiliwr Cyffredinol yn dilyn yr adroddiad Llywodraethu Corfforaethol ar yr Awdurdod hwn ac os oedd y Cyngor hwn am sicrhau ei hunaniaeth, yna rhaid iddo gryfhau'r broses o adferiad democrataidd.

- Nid oedd yr adolygiad o'r ffiniau yn cael ei wneud yn gyfrinachol na heb ymgynghori. Roedd hon yn broses agored a thryloyw a fyddai'n caniatáu ar gyfer sawl opsiwn ac yn caniatáu i sylwadau gael eu cyflwyno cyn dod i benderfyniad terfynol. Yn ei lythyr, rhoes y Gweinidog sicrwydd personol y byddai unrhyw sylwadau'n cael eu cymryd i ystyriaeth cyn y gwneid penderfyniad.

- Roedd yr hyn a gynigiwyd yn cael effaith ar y Cynghorau Tref a Chymuned ynghyd â'r Cyngor Sir. Byddai'n ysgrifennu'n benodol ac yn uniongyrchol at y Cynghorau Tref a Chymuned yn hyn o beth.

Dyma rai o'r sylwadau a gyflwynwyd gan Gynghorwyr unigol yn y Cyngor:

- Nid oedd yr aelodau'n gwrthwynebu i adolygiad o'r ffiniau cyn belled â bod proses briodol y dylid ei dilyn o ran ymgynghori. Os mae'r nod oedd cael gwared ar rai Cynghorwyr, yna yr etholwyr ddylai penderfynu pwy sy'n cael eu hethol neu eu hailethol ac nid unrhyw newidiadau yn y ffiniau.

- Roedd rhai yn bryderus am y brys a oedd ynghlwm â'r mater hwn. Roedd rhaid tynnu'r adolygiad blaenorol yn ôl. Pwysig i gael hyn yn iawn.

- Dylai'r Cyngor hwn gynnal refferendwm i weld a oedd yr etholwyr o blaid wardiau amlaelod.

- Roedd yr Adolygiad hwn yn benodol i Fôn ac yn cael ei gynnal ar wahân i weddill Cymru o fewn amserlen anymarferol, annheg ac annemocrataidd. Er bod rhaid i'r Comisiwn Ffiniau gynnal adolygiadau bob 10-15 blynedd, nid oedd rhaid iddynt wneud newidiadau. Roedd angen i neges gref fynd yn ôl bod yr adolygiad yn ddiffygiol oherwydd ei fod yn gwahanu Ynys Môn o weddill Cymru.

- Roedd yr holl broses yn gwadu democratiaeth oherwydd ei fod yn gwadu i'r Comisiwn Ffiniau yr hawl i wneud yr hyn yr oeddent yn dymuno ei wneud oherwydd bod y rheolau eisoes wedi cael eu gosod gan y Gweinidog. Cafwyd si bod Ynys Môn am gael ei rhannu'n bedair chwarter a fyddai'n arwain at ddim atebolrwydd lleol. Roedd dyfodol Cynghorwyr fel unigolion yn y fantol yma ond hefyd roedd lywodraethu da yn y dyfodol ar yr Ynys yn y fantol hefyd. Roedd y Gweinidog yn gweithredu'n frysiog - rhywbeth a all arwain yn aml at y penderfyniadau anghywir a fyddai'n andwyol i bobl Ynys Môn ar gyfer y genhedlaeth nesaf. Y neges sylfaenol oedd nad oedd Ynys Môn eisiau wardiau amlaelod a chael ei rhwygo fel Ynys.

- Roedd yr hyn a gynigiwyd yn wallgofrwydd dinesig. Cyfeiriwyd at ddogfen gan Gyngor Sir y Fflint ynglŷn â'i hadolygiad ffiniau nhw ac at y pwyntiau amlwg canlynol ynddo - "*the incongruous amalgamations which would not maintain identifiable democratic representation; that the proposed changes at Flintshire in departing from single member wards were extreme in comparison to the proposals emerging from other Councils."* Ysbryd y Ddeddf oedd ymgynghori ymlaen llaw ac nid oedd hyn wedi digwydd yn Ynys Môn.

- Gall problemau cecru mewnol yn y Cyngor gael eu trosglwyddo i'r Cynghorau Tref a Chymuned o bosib trwy sefydlu wardiau amlaelod. Dim digon o ferched ar y Cyngor. Nid oedd yr hyn a gynigiwyd am hwyluso'r broses honno ac roedd angen rhoddi sylw dyladwy i hyn.

- Dylid rhyddhau'r holl ddogfennau o fewn yr Awdurdod hwn yn ystod y 18 mis diwethaf a oedd wedi arwain at i'r Cyngor fod yn y sefyllfa gyfredol. Efallai y byddai'r wybodaeth hon yn newid agwedd y Gweinidog at yr holl sefyllfa.

Cynigiwyd ac eiliwyd y dylid sefydlu Panel a chanddo'r awdurdod i mofyn cyngor cyfreithiol annibynnol i benderfynu pa gamau oedd ar gael i'r Cyngor o ran ymateb i'r cynigion a gyflwynwyd gan y Comisiwn Ffiniau.

**PENDERFYNWYD** cau allan y wasg a'r cyhoedd am y rhan hon o'r cyfarfod fel y gallai'r Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol roddi barn gyfreithiol gyfrinachol cyn pleidleisio.

Yna aeth y cyfarfod yn ôl i sesiwn gyhoeddus.

Gofynnodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol (Cyllid) gwestiwn ynghylch pŵer y Panel Arfaethedig i wario petai'n mynd yn ei flaen. Roedd y Cyngor hwn eisoes wedi mabwysiadu cyllideb ar gyfer blwyddyn ariannol 2011-12 a oedd, y rhan fwyaf ohoni, wedi ei dirprwyo i'r Comisiynwyr. Gofynnodd i'r Cyngor a oedd yn dymuno dirprwyo ei hawl i wario swm penodol yn ychwanegol at y gyllideb flynyddol ac os oedd, byddai'n briodol enwi'r swm. Roedd y Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol yn cynghori swm o £50,000.

**PENDERFYNWYD**

- **Gwneud trefniadau i gynnal cyfarfod/seminar anffurfiol o'r Cyngor Sir unwaith yr oedd y cynigion cychwynnol wedi dod i law ac estyn gwahoddiad i aelod o'r Comisiwn Ffiniau fynychu'r cyfarfod hwnnw.**

- **Sefydlu panel o 7 aelod ac arno gydbwysedd gwleidyddol (Cymhareb 2.1.2.1.1), gyda grym i weithredu, mewn ymgynghoriad gyda swyddogion perthnasol a gofyn iddynt gyfarfod i benderfynu a ddylid mofyn cyngor cyfreithiol annibynnol pellach pan fydd yr holl wybodaeth i law.**

- **Neilltuo swm a fydd ddim yn uwch na £50,000 o'r balansau cyffredinol i dalu cost unrhyw gyngor cyfreithiol a phetai angen swm pellach, yna dylai'r Cyngor Sir benderfynu ar y swm hwnnw.**

**Daeth y cyfarfod i ben am 12.25pm**

**Y CYNGHORYDD G. O. JONES**
**CADEIRYDD**